

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd

14 Tachwedd 2021

Teyrnas III - Sul y Cofio

CYHOEDDIADAU'R SUL

GWASANAETHAU Y SUL NESAF YN YR EGLWYS

Cynhelir tri gwasanaeth y Sul nesaf: 8.00am y Cymun Bendigaid, 10.30am y Foreol Weddi a'r Cymun Bendigaid am 6.00pm. Os ydych yn bwriadu dod i un neu fwy o'r gwasanaethau hyn a wnewch chi anfon e-bost at Marian Fairclough: faircloughmarian@gmail.com neu ffonio ar 029 2088 5151: **erbyn 4.00 o'r gloch prynhawn Sadwrn os gwelwch yn dda.**

NEWID YN NHREFN Y GWASANAETHAU

Gan fod Sul cyntaf yr Adfent yn syrthio ar Sul olaf y mis, bydd gwasanaeth o'r Foreol Weddi y Sul nesaf am 10.30am gyda gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 6.00pm.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig dros Zoom nos Lun 15 Tachwedd am 7.00pm.

DATHLU 400MLWYDDIANT CYHOEDDI Y SALMAU CÂN

Cynhelir Symposiwm a drefnir gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ffurf darlith wythnosol dros dair nos Lun ym mis Tachwedd ar Zoom i nodi 400mlwyddiant cyhoeddi Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621

Cynhelir y cyntaf nos yfory, 15 Tachwedd am 5.30pm. Bydd Gruffydd Aled Williams yn rhoi darlith ar 'Campwaith Edmwnd Prys: Salmau Cân 1621'. I gofrestru dilynwch y ddolen isod.

<https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/campwaith-edmwnd-prys-salmau-can-1621/e-qjdvlg>

GOFAL EIN GWINLLAN

Cynhelir y trydydd seminar yn nhyrnor yr Hydref ar gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i iaith, hanes a diwylliant Cymru nos Fercher 17 Tachwedd 7.00 – 8.30pm dros Zoom. Y pynciau dan sylw fydd "Goronwy Owen a Morrisiaid Môn" gan Dr Ffion Mair Jones ac "Edward Richard a Ieuan Fardd" gan Gerald Morgan. I gofrestru ddilynwch y ddolen hon: <https://bit.ly/3rEQeGc>

COFFI A CHLONC

Cynhelir ein bore coffi dros Zoom bore Sadwrn 20 Tachwedd am 10.30am. Os hoffech dderbyn y manylion Zoom anfonwch neges at y Ficer, os gwelwch yn dda.

SUL CYNTAF YR ADFENT

Byddwn yn cynnal gwasanaeth o ddarlleniadau a cherddoriaeth i nodi dechrau'r Adfent nos Sul 28 Tachwedd am 6pm.

CINIO NADOLIG

Cynhelir cinio Nadolig yr eglwys eleni dydd **Sul 12 Rhagfyr yng nghlwb golff Llanisien am 12.00am.** Pris tri chwrw fydd £16.50. Oherwydd y cyfyngiadau dim ond lle i 30 fydd, felly y cyntaf i'r felin gaiff falu. Os hoffech ddod neu os am ragor o wybodaeth, mynnwch air â Delyth Davies.

GWASANAETHAU MIS TACHWEDD

Dydd Sul 21 Tachwedd – Crist y Brenin

8.00am Y Cymun Bendigaid (ar lafar)
10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth (gyda chanu)
6.00pm Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 28 Tachwedd – Adfent I

10.30am – Y Cymun Bendigaid (gyda chanu)
6.00pm - Gwasanaeth Dechrau'r Adfent

GWASANAETHAU HEDDIW: Teyrnas III

Bydd linc i bodlediad y gwasanaeth boreol yn ymddangos gyda'r e-bost sy'n cynnwys y daflen hon. Mae ein gwasanaethau i'w cael ar wefan yr eglwys.

Ni fydd podlediad heno am 6.00pm

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, John Hicks, Catrin Morgan, Nia Roberts, Gwen Thomas, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

ADDOLI AR YR AELWYD

Os oes gennych gopi o lyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y Foreol a'r Hwyrrol Weddi (glas tywyll 1984), mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaethau ynddo a'i ddarllen i chi eich hun yn dawel neu ar lafar, neu ym mha bynnag fodd sy'n gyffyrddus i chi.

Mae'r Salm a'r darlleniadau ar gyfer y Sul fel y canlyn:

Y Foreol Weddi:

Salm 16
Micha 4:1-5
Marc 13:1-8

Yr Hwyrrol Weddi:

Salm 95
Daniel 3
Mathew 13:24-30, 36-43

Mae croeso i chi ddilyn trefn y gwasanaeth ar y daflen hon hefyd.

Trefn gwasanaeth syml ar gyfer y gwasanaeth boreol
Thema: Cariad digyfnewid Duw yn nghanol byd sy'n newid!

**Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw,
A'i gyfiawnder ef,
A'r pethau hyn yn ychwaneg roir i chwi:
Halelwia, Halelwia!
Halelwia, Halelwia,
Halelwia, Halelwia!**

**Nid ar fara'n unig bydd byw dyn,
Ond ar bob gair
Ddaw o enau Duw ei hun:
Halelwia, Halelwia!
Halelwia, Halelwia,
Halelwia, Halelwi!**

**Gofynnwch ac fe roddir i chwi,
Ceisiwch ac fe gewch;
Curwch ac fe agorir i chwi:
Halelwia, Halelwia!
Halelwia, Halelwia,
Halelwia, Halelwi!**

*Geiriau Cymraeg: Enid Morgan
Emynau'r Llan 19*

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr
Oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw. Mathew
5:9

Y Dod Ynghyd

Daethom ynghyd fel teulu Duw ym mhresenoldeb ein
Tad i offrymu mawl a diolchgarwch iddo, i wrando a
derbyn ei air, i ddwyn ger ei fron anghenion y byd ac i
geisio ei ras, fel trwy ei Fab Iesu Grist, y gallwn
gyflwyno ein hunain i'w wasanaeth.

Dyweddodd Iesu: "Y gorchymyn cyntaf yw, 'Gwrando,
O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a
châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl
enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth. 'Yr ail yw
hwn, Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes
gorchymyn arall mwy na'r rhain".

Gweddiwn:

Arglwydd, trwy gyflawnder dy gariad digyfnewid
deuwn i'th wyddfod.

Ymgrymwn mewn ofn o'th flaen.

Arwain ni, Arglwydd, yn dy gyfiawnder
a dangos dy ffordd yn syth ac yn glir o'n blaen,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Arglwydd yr holl fyd,
gyda thi wrth ein hochr,
ni ellir ein hysgwyd.

A ninnau'n cael ein harwain gan dy ddoethineb,
ni fydd arnom ofn.

A'th lwybr di o'n blaenau,
cerddwn mewn gobaith.

Gyda thi yn Dduw i ni,
**llawenhawn.
Amen.**

Cyffeswn ein pechodau wrth ein Tad a cheisio ei
faddeuant a'i dangnefedd.

Ein Tad nefol,
nid wyt ti byth yn ein gadael,
ond yr ydym ni'n aml yn cefnu arnat ti:
Arglwydd, maddau i ni.

Fe wyddost ti gudd feddyliau'n calonnau,
ein dallineb i'n diffygion ein hunain
a'n diffyg amynedd o feiau pobl eraill.
Arglwydd, maddau i ni.

Am ein geiriau miniog,
am ein meddyliau angharedig
ac am ein cymhellion hunanol:
Arglwydd, maddau i ni.

Am ein balchder mewn llwyddiant,
Am ein chwerwder mewn siom,

Ac am ein diffyg gwerthfawrogiad
o ddoniau'n gilydd:

Arglwydd, maddau i ni.

Y Gollyngdod

Dduw ein Tad, yr hwn sydd wedi cymodi'r byd ag ef ei hun, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, ac sy'n maddau pechodau pawb sy'n wir edifeiriol, a faddeuo i chwi a'ch rhyddhad o'ch holl bechodau, a chaniatáu i chwi ras a nerth yr Ysbryd Glân. Amen.

**Frenin nef, addolwn Frenin nef,
Boed gogoniant, anrhydedd, mawl iddo ef:**

Frenin nef, llifa'i awdurdod ef

O'i orsedd fry, fe'i rhoir i ni,

Mawl fo ein llef!

Plygwn lawr, dyrchafwn nawr hardd enw Iesu,

Iddo ef dyrchafwn lef, Grist Iesu ein Brenin:

Frenin nef, addolwn Frenin nef,

Marw wnaeth ef, nawr mae'n y nef,

Addolwn ef.

Jack Hayford

Cyf. Catrin Alun

Caneuon Ffydd 277

Y Colect

Dad nefol,
y datguddiwyd dy fendigedig Fab
i ddatod gweithredoedd y diafol
a'n gwneud ni'n blant i Dduw
ac yn etifeddion bywyd tragwyddol,
caniatâ i ni, a'r gobaith hwn gennym,
ein puro ein hunain fel y mae ef yn bur;
fel, pan ddaw drachefn mewn nerth a gogoniant mawr
y gwneir ni'n debyg iddo ef
yn ei deyrnas ogoneddus a thragwyddol;
caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Darlleniad o'r Hen Destament: Micha 4:1-5 – Catrin Taylor

Yn y dyddiau diwethaf bydd mynydd tŷ'r ARGLWYDD wedi ei osod ar ben y mynyddoedd ac yn uwch na'r bryniau. Dylifa'r bobloedd ato, a daw cenedloedd lawer, a dweud, "Dewch, esgynnwn i fynydd yr ARGLWYDD, i deml Duw Jacob, er mwyn iddo ddysgu inni ei ffyrdd ac i ninnau rodio yn ei lwybrau." Oherwydd o Seion y daw'r gyfraith, a gair yr ARGLWYDD o Jerwsalem. Bydd ef yn barnu rhwng cenedloedd, ac yn torri'r ddadl i bobloedd cryfion o

bell; byddant hwy'n curo'u cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach; a bydd pob un yn eistedd dan ei winwydden a than ei ffigysbren, heb neb i'w ddychryn. Oherwydd genau ARGLWYDD y Lluedd a lefarodd. Rhodia pob un o'r cenedloedd yn enw ei duw, ac fe rodiwn ninnau yn enw'r ARGLWYDD ein Duw dros byth.

Salm 103

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i,

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i.

Meurig Thomas

Caneuon Ffydd 233

Darlleniad o'r Testament Newydd: Marc 13:1-8 Dyfrig Lloyd

Gwrandewch efengyl Crist yn ôl sant Marc

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Wrth iddo fynd allan o'r deml, dyma un o'i ddisgyblion yn dweud wrtho, "Edrych, Athro, y fath feini enfawr a'r fath adeiladau gwych!" A dywedodd Iesu wrtho, "A weli di'r adeiladau mawr yma? Ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr." Fel yr oedd yn eistedd ar Fynydd yr Olewydd gyferbyn â'r deml, gofynnodd Pedr ac Iago ac Ioan ac Andreas iddo, o'r neilltu, "Dywed wrthym pa bryd y bydd hyn, a beth fydd yr arwydd pan fydd hyn oll ar ddod i ben?" A dechreuodd Iesu ddweud wrthynt, "Gwylwch na fydd i neb eich twyllo. Fe ddaw llawer yn fy enw i gan ddweud, 'Myfi yw', ac fe dwyllant lawer. A phan glywch am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd, peidiwch â chyffroi. Rhaid i hyn ddigwydd, ond nid yw'r diwedd eto. Oblegid cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas. Bydd daeargrynfâu mewn mannau. Bydd adegau o newyn. (Marc 13:1-8)

Dyma efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Salm 103

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i,

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i

Bendithia'r Arglwydd, fy enaid i.

Meurig Thomas

Caneuon Ffydd 233

Y Bregeth

“Edrych, Athro, y fath feini enfawr a’r fath adeiladau gwych”. Marc 13:1c

Adeiladau gwych! Dydyn ni ddim yn brin o adeiladau gwych yma yng Nghaerdydd na chwaith yng Nghymru. Ond pa un yw eich hoff adeilad gwych a pham? Castell Caerdydd, Stadiwm y Principality, Canolfan y Mileniwm, y Senedd, y Deml Heddwch, Cadeirlan Llandaf, Castell Coch, Eglwys Dewi Sant? Dyma ond ychydig o adeiladau gwych a ddaeth i’m meddwl yn syth pan ddechreuais i feddwl am adeiladau Caerdydd. Mae pob un ohonynt yn adeilad mawr a chrand, adeiladau i dynnu sylw, ac i wneud datganiad. Mae adeiladau gwych yn ffordd o ddangos hyder cenedl, a beth sydd yn bwysig iddi. Mae pob un o’r adeiladau â phwrpas i’w cyflawni. Efallai y cawn ein denu i hoffi’r adeilad oherwydd ei bensaernïaeth, ei hanes, neu efallai oherwydd yr hyn sy’n digwydd ynddo. I rywrai sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, mae’r Senedd yn mynd i fod yn adeilad pwysig iddynt. I rywrai sy’n hoffi rygbi, mae Stadiwm y Principality yn mynd i fod yn adeilad arbennig iddynt. I rywrai sy’n ymddiddori mewn cerddoriaeth ac yn mwynhau gwyllo perfformiadau byw, bydd gan Ganolfan y Mileniwm dynfa arbennig iddynt. Ac wrth gwrs mae modd cael mwy nag un hoff adeilad.

Un o’r pethau sydd wedi fy synnu dros y misoedd diwethaf yw gweld cynifer o graenau uchel yng nghanol y ddinas, fel bysedd main yn ymestyn i’r awyr, yno i helpu gyda’r gwaith o adeiladau tyrrau uchel newydd – adeiladau tal a chrand, adeiladau gwych newydd a fydd yn addurno’r ddinas a bod yn ganolfannau i fusnes a masnach y dyfodol. Mae’n rhyfedd yr awydd sydd gan y ddynoliaeth i ddangos eu hyder a’u medr godi adeiladau mawr a chrand. Nid yw’r awydd hwn yn newydd o gwbl. Mae Cymru wedi’i britho ag adfeilion o abatai a chestyll, ac wrth edrych ar yr adfeilion, fe allwn ni ddychmygu’n hawdd mor grand a gwych oedd yr adeiladau hyn yn eu hanterth. Neu os meddyliwn ni am Rufain neu Wlad Groeg, fe wyddom fod y llefydd hyn yn llawn adfeilion hen demlau a theatrau enfawr a gwych. Mae ei hadfeilion heddiw yn peri i ni ryfeddu, ond fe fyddai’r adeiladau eu hunain wedi ein syfrdanu, nid yn unig o ran eu maint, ond hefyd o ran ceinder a safon y gwaith pensaernïol. Ond erbyn heddiw adfeilion ydynt – eu hen ogoniant wedi hen ddiplannu. Mae rhywbeth digon trist am adfeilion hen adeilad. Maen nhw’n arwyddion gweladwy sydd yn ein hatgoffa nad oes

dim sy’n para am byth. Mae mwyafrif o hen gestyll ac abatai Cymru yn adfeilion oherwydd nad oedd eu hangen mwyach ac oherwydd nad oedd defnydd iddynt, daeth eu gwaith i ben, daeth eu dydd i ben a dim ond eu hadfeilion sydd ar ôl fel cysgodion o’r gorffennol. Mae’r adfeilion hyn bellach yn lefydd o ddiddordeb hanesyddol i ni, lle y gallwn dreulio awr neu ddwy yn myfyrio ar eu hanes.

Ac mae’r darlleniad o’r efengyl y bore ‘ma yn ymwneud ag adeilad crand a gwych yng nghyfnod Iesu, sef y Deml yn Jerwsalem. Mae’n anodd i ni heddiw ddychmygu maint y Deml, mor fawr ydoedd. Roedd ei safle ar ben bryn uchel yn drawiadol, ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gweld o bell, ac yn haul y Dwyrain Canol Agos byddai’n disgleirio fel deiamwnt. Mor grand a gwych oedd y Deml, yr oedd yn cael ei hystyried gan rhai fel un o Saith Ryfeddod yr hen fyd. Mor fawr yw rhai o’r meini, sy’n pwysu dros gân tunnell yr un, y mae arbenigwyr heddiw yn ceisio dyfalu sut oedd pobl, heb unrhyw offer mecanyddol, wedi llwyddo i’w symud a’u gosod yn eu lle a llwyddo i godi adeilad adeilad mor wych. Roedd y disgyblion yn bendant wedi rhyfeddu wrth weld ei maint a’i gwychder nes iddynt ddweud wrth Iesu, “Edrych, athro, y fath feini enfawr a’r fath adeiladau gwych”.

Adeiladwyd y Deml i fod yn grand; dyma oedd canolfan addoli yr Iddewon wedi’r cyfan, a’r deml oedd preswylfod Duw ar y ddaear. Wrth ddod i’r Deml i addoli yr oedd yr addolwyr yn credu eu bod yn nesáu at bresenoldeb Duw ei hun. Ond yr oedd y deml yn fwy nag adeilad, yn fwy nag addoldy, yr oedd hefyd yn arwydd gweladwy o ffydd a hyder y bobl yn eu Duw. Yr oedd yr Iddewon yn credu bod gobaith i’r bobl a dyfodol i’r genedl, tra bo Duw yn ei deml, er gwaetha’r ffaith bod y wlad ym meddiant y Rhufeiniaid. Er bod y Rhufeiniaid yn rheoli bron pob agwedd o fywyd y bobl, doedd gan y Rhufeiniaid ddim dylanwad ar beth oedd yn digwydd yn y Deml. Oherwydd hynny yr oedd y Deml yn parhau i fod yn arwydd o obaith am annibyniaeth i’r Iddewon.

Ond er mor bwysig oedd y Deml i’r Iddewon, roedd Iesu yn gwybod na fyddai’n yn para am byth. Byddai’r dydd yn dod pan fyddai’r deml yn cael ei dymchwel i’r llawr, “heb adael maen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr”. Fel y gallwch ddychmygu, fe ddaeth y newyddion hyn fel syndod mawr i’w ddisgyblion a dechreuon nhw boeni’n ddirfawr ymhlith ei gilydd, a gofynnodd pedwar o’i ohonynt iddo, “Dywed wrthym pa bryd y bydd hyn oll ar ddod i ben?” Pa fath o ddigwyddiad a fyddai’n gallu dinistrio adeilad mor fawr a chrand - rhyfel, daeargryn efallai?

Byddai angen rhywbeth mawr ac ofnadwy i symud y meini mawr o'u lle. I'r disgyblion, byddai dinistr y Deml yn golygu mwy na cholli adeilad, byddai hefyd yn golygu colli arwydd gweladwy o hunaniaeth yr Iddewon. Roeddent yn ofni y byddai dinistr y Deml yn golygu ddiwedd y byd!

Fe ddinistriwyd y Deml yn y flwyddyn 70 ar ôl Crist, bron i ddeugain mlynedd ar ôl croeshoeliad ac atgyfodiad Iesu. Fe ddaeth y milwyr Rhufeinig a dymchwel y deml i'r llawr, "heb adael maen ar faen", a'r unig ran o adfeilion y Deml sydd ar ôl, yw Mur yr Wylofain, lle mae Iddewon a phobl o ffydd yn ymgynnull o'i flaen i weddio. Ar un ystyr yr oedd dinistr y Deml yn golygu diwedd y byd – diwedd byd ac addoliad yn y Deml, diwedd yr adeilad, diwedd yr offeiriadaeth Iddewig – oherwydd heb Deml i wasanaethu ynddi, doedd dim byd i'w wneud gan yr offeiriaid. Diwedd y Deml fel arwydd gweladwy o bresenoldeb Duw ymysg ei bobl. Roedd dinistr y Deml yn dro ar fyd ofnadwy, ac yr oedd y cyfnod tywyll hwn yn un tywyll iawn yn hanes pobl Israel; ond nid oedd yn ddiwedd y byd. Fe barhaodd y ffydd Iddewig heb y Deml yn Jerwsalem, esblygodd gan addasu yn ôl y galw. Er mor bwysig yw'r adeilad a'r hyn y mae'n ei gynrychioli – eto pwysicach yw'r hyn sy'n digwydd ynddo.

Mae pob cyfnod sy'n peri ansicrwydd yn gwneud i ni deimlo'n annifyr ac ar adegau'n ofnus. Mae'r ugain mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o ansicrwydd. Heddiw ar Sul y Cofio, cofiwn am yr ansicrwydd ac ofn a ddaeth o ganlyniad i ddau Ryfel Byd. Roedd y cyfnodau hyn i gyd yn gyfnodau o ansicrwydd i bawb a oedd wedi byw trwyddynt. Gallwn ddychmygu bod nifer yn teimlo bod diwedd y byd wedi cyrraedd – a do, fe ddaeth newidiadau mawr i gymdeithas ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, rhai newidiadau er gwell ac eraill er gwaeth. Daeth tro ar byd i nifer o aelwydydd, ac mae'r Cofebion yn ein hatgoffa ni o'r galar a'r cholled a ddaeth i bron bob pentref a thref yng Nghymru yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Wrth i ni deithio ymlaen heddiw, fe wyddom y daw newidiadau oherwydd y pandemig; mae'n anochel. Ond i ba le bynnag yr awn, trwy'r ansicrwydd, trwy'r teimlad o golled, trwy gyfnod o newid yn ein bywydau, y mae Iesu yn gofyn i ni beidio â chynhyrfu, i beidio â digalonni, i beidio â syrthio i feddwl fod popeth ar ben a'i bod yn ddiwedd y byd. Does dim diben yn hynny. Yn hytrach, y mae Iesu yn gofyn ni ymddiried ynddo ef, i fyw yn ei oleuni a pharhau â'r gwaith o rannu ei gariad. Pan wnawn ni

hynny, fe ddeuwn o hyd i'r cadernid sy'n ein cynnal, y cadernid digyfnawid mewn byd o newid, y cadernid nad oes angen Teml arno, sef cariad Duw a brofiwn ni trwy ein ffydd yn Iesu Grist. Amen.

**Hedd sy'n llifo fel yr afon,
Llifo drwot ti a mi,
Llifo allan i'r anialwch,
Rhyddid bellach ddaeth i ni.**

**Cariad sy'n llifo fel yr afon,
Llifo drwot ti a mi,
Llifo allan i'r anialwch,
Rhyddid bellach ddaeth i ni.**

**Ffydd sy'n llifo fel yr afon,
Llifo drwot ti a mi,
Llifo allan i'r anialwch,
Rhyddid bellach ddaeth i ni.**

**Gobaith sy'n llifo fel yr afon,
Llifo drwot ti a mi,
Llifo allan i'r anialwch,
Rhyddid bellach ddaeth i ni.**

**Llawenydd sy'n llifo fel yr afon,
Llifo drwot ti a mi,
Llifo allan i'r anialwch,
Rhyddid bellach ddaeth i ni.**
*Anad. Cyf. Enid Morgan
Caneuon Ffydd 281*

Ymbiliau

Gweddiwn:

Arglwydd trugarog, gweddiwn dros dy eglwys ledled y byd. Gad i bawb sy'n cyffesu dy enw gael eu huno yn dy wirionedd a byw yn gytûn yn dy dangnefedd:
Dduw cariad, gwranddo ein gweddi.

Gweddiwn dros arweinwyr, llywodraethwyr a phobloedd. Tywys yr holl genhedloedd yn ffordd cyfiawnder a heddych, fel y dysgant anrhydeddu ei gilydd a chyd-fyw mewn heddych a chytgord:
Dduw cariad, gwranddo ein gweddi.

Gweddiwn dros y ddaear a'n hamgylchfyd, yn enwedig y bydd y penderfyniadau a'r addunedau a wnaed yn y COP26 yn cael eu gweithredu er lles y cread a'r ddynol-ryw. Dysg ni i barchu dy greadigaeth, i ddefnyddio'i hadnoddau'n ddoeth, ac i warchod ei chyfoeth a'i phrydferthwch, er lles ein gilydd ac er gogoniant i ti.

Dduw cariad, gwrandu ein gweddi.

Gweddiwn dros bawb sydd â'u bywydau ynghlwm wrth ein bywydau ni.
Planna ynom barch a chariad tuag ein gilydd, cymorth ni i weini ar bawb mewn angen ac i wasanaethu Crist ynddynt hwy:

Dduw cariad, gwrandu ein gweddi.

Gweddiwn dros bawb sy'n dioddef mewn corff, meddwl ac ysbryd.
Rho iddynt ddewrder a gobaith i ymgynnal, adfer hwy yn ôl dy ewyllys, a thywys hwy i lawenydd dy iachawdwriaeth:

Dduw cariad, gwrandu ein gweddi.

Gweddiwn gyda'n gilydd.

Nefol Dad,
diolchwn i ti am ein cartrefi a'n teuluoedd,
am fwyd a dillad
ac am bob hapusrwydd y gall rhieni a phlant ei rannu.

Gofynnwn
am i'th gariad ein hamgylchynu,
a'th ofal ein hamddiffyn
ac am gael adnabod dy dangnefedd bob amser.
Arglwydd yn dy drugaredd
derbyn y gweddiâu hyn;
er mwyn Dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Emyn

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd,
Lle bo casineb dof â'th gariad di,
A lle bo dagrau gad im ddod â gwên,
Cyfannu'r holl raniadau boed i mi.

O Arglwydd Dduw, na ad im geisio dim gan eraill, eithr rhoddi boed i mi, na foed im hawlio dim i mi'n y byd, ond rhoi i eraill fyddo 'mraint o hyd.

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd,
Lle bo amheuaeth boed im ddangos ffydd,
A lle bo gofid dof â'th obaith di,
I d'wyllwch boed im ddod â golau ddydd.

Ffransis o Assisi 1181 – 1226
Cyf. Siân Rhiannon

Gweithred o gofio ar Sul y Cofio.

Llun o'r Gofeb yn EDS heb y dorch

Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach... Rhodia pob un o'r cenedloedd yn enw ei duw, ac fe rodiwn ninnau yn enwi'r Arglwydd ein Duw dros byth. Micha 4:3 a 5

Gadewch i ni gofio'r rhai a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, a'r rhai a laddwyd mewn rhyfeloedd diweddarach.

Ni heneiddiant hwy,
Fel ni, a adawyd.
Ni ddwg oed iddynt ludded
Na'r blynyddoedd gollfarn mwy.
Pan elo'r haul i lawr
Ac ar wawr y bore,
Ni â'u cofiwn hwy,
Ni â'u cofiwn hwy.

Bydd dwy funud o dawelwch

Llun o'r Gofeb gyda'r dorch

Pan ddychwelwch adref
Dywedwch hyn amdanom ni
mai er mwyn eich yfory chi
Rhoddasom ein heddiw.

Ymgylflynwn ein hunain o'r newydd i wasanaethu Duw, a gwasanaethu ein cyd-ddynion; i gynorthwyo, calonogi a chysuro eraill, a chefnogi'r sawl sy'n llafurio i ymgeleddu'r anghenus; ac i geisio heddwch a ffyniant i'r cenedloedd.

Arglwydd ein Duw a'n Tad,
addunedwn dy wasanaethu di
a'r holl ddynolryw
yn achos heddwch,
o gyflawni anghenion

a lleddfu dioddefiadau pobl,
er clod i'th enw di.

Arwain ni â'th Ysbryd;
Rho inni ddoethineb;
Rho inni wroldeb;
Rho inni obaith;
A chadw'n ni'n ffyddlon,
Yn awr a hyd byth. Amen.

Emyn olaf.

Heddwch ar ddaear lawr,
gan ddechrau'n fy nghalon i,
heddwch ar ddaear lawr,
yr hedd a fwriadwyd i ni;
A Duw'n Dad trugarog,
brodyr oll ym ni,
cerddwn oll gyda'n gilydd,
mewn hedd a harmoni.

Dechrau'n fy nghalon i,
a dechrau y foment hon,
ar hyd fy nhaith drwy'r byd,
rwy'n addo yn ddwys a llon
i greu bob munud
a byw bob munud
mewn hedd a harmoni,
heddwch ar ddaear lawr,
gan ddechrau'n fy nghalon i.

*Cyf. Harri Williams
Caneuon Ffydd 867*

Y Fendith.

Bydded i Grist y Brenin eich gwneud yn ffyddlon a
chryf i gyflawni ei ewylllys a'ch dwyn i deyrnasu gydag
ef yn ei ogoniant...a bendith Duw Hollalluog, y Tad, y
Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac yn drigo
gyda chwi yn wastad. **Amen.**

*Mae hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr
Eglwys yng Nghymru a phob gwasanaeth sydd ynddo
yn eiddo Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984. Neu Y
Cymun Bendigaidd 2004
Roots a Chaneuon Ffydd.
Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 1984
Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng
Nghymru Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng
Nghymru 2011.
Colectau a Gweddiau Ôl-Gymun o'r llyfr Y Calendr
Newydd a'r Colectau. Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr
yr Eglwys yng Nghymru 2002 Emynau – Caneuon
Ffydd, Emynau'r Llan*

GWEDDIAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- ❖ Eglwys Anglicanaidd Awstralia
- ❖ Plwyf Pentyrch a Chapel Llanilltern, offeiriad i'w benodi

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 15 Tachwedd: Saint, Merthyron a Chenhadon Gogledd America

I Macabeaid 1:1-15; Salm 79; Luc 18:35-43

Gweddiwn dros: Esgobaeth Honduras, yr Eglwys Esgobol Talaith IX

Plwyf Radyr, y Parchedig Vicki Burrows (Ficer), y Parchedig Steve Willson (Offeiriad Cynorthwyol), y Parchedig Belinda Huxtable-Goy (Curad)

Dydd Mawrth 16 Tachwedd: Margaret o'r Alban (c1045), Brenhines

Gweddiwn dros: Esgobaeth Ynys Hong Kong, Hong Kong Sheng Hung Hui

Plwyf St Ffagan a Llanfihangel-ar-elai, y Parchedig Vicki Burrows (Ficer), Steve Willson (Offeiriad Cynorthwyol), Colin Finney (Darllenydd Lleyg)

Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru, Sain Ffagan, y pennaeth, Mrs Ceri Hawkins, y staff a'r disgyblion

Dydd Mercher 17 Tachwedd: Huw (1200), Esgob

II Macabeaid 7:1, 20-31, 39-42, Salm 17, Luc 19:11-28

Gweddiwn dros: Esgobaeth Hpa-an, Eglwys Talaith Myanmar

Darllenwyr Lleyg yr Esgobaeth, Warden y Darllenwyr Lleyg, Colin Finney, Caplan y Darllenwyr, y Parchedig Caroline Downs

Dydd Iau 18 Tachwedd: Hilda (680), Abades

I Macabeaid 2:15-29; Salm 129; Luc 19:41-44

Gweddiwn dros: Esgobaeth Huron, Eglwys Anglicanaidd Canada

Plwyf Tongwynlais, Offeiriad i'w benodi

Dydd Gwener 19 Tachwedd: Elisabeth o Hwngari (1231), Tywysoges

I Macabeaid 4:52-59; Salm 113; Luc 19:45-48

Gweddiwn dros: Esgobaeth Hyderabad, eglwys Unedig Pakistan

Ardal Gweinidogaeth yr Eglwys Newydd, y Parchedig John Davis (Arweinydd), Andrew Edgar y Cadeirydd Lleyg

Dydd Sadwrn 20 Tachwedd:

Gweddiwn dros: Esgobaeth Ibadan, Eglwys Nigeria (Talaith Ibadan)

Ardal Gweinidogaeth yr Eglwys Newydd, y Parchedig John Davies (Arweinydd yr Ardal), y Parchedig Peter Mortimer (Ficer), y Parchedig Andrew Highway (Offeiriad Cynorthwyol), y Parchedig Benedict Yates (Curad), Dr Geoffrey Foot (Darllenydd Lleyg)